Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Llanrhaeadr ym Mochnant**
**Ysgol Llanrhaeadr ym Mochnant**
**Llanrhaeadr ym Mochnant**
**Croesoswallt**
**Swydd Amwythig**
**SY10 0LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanrhaeadr ym Mochnant. Mae’r lleoliad yn cyfarfod yn neuadd yr ysgol, ym mhentref Llanrhaeadr ym Mochnant, yn awdurdod lleol Powys. Mae’r cylch yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy a hanner i bedair oed rhwng 8.45 a 11.45 y bore, pedwar diwrnod o’r wythnos am 38 wythnos y flwyddyn.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Mae 14 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda phedwar ohonynt yn cael addysg blynyddoedd cynnar wedi ei ariannu gan yr awdurdod. Saesneg yw prif iaith y cartref i bron bob un o blant y cylch.

Mae dau aelod o staff profiadol a chymwys yn gweithio yn y cylch ac un gwirfoddolwr. Mae’r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2012.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2016 a gan Estyn ym mis Chwefror 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y cylch yn dda oherwydd bod:

- y lleoliad yn darparu profiadau dysgu buddiol sydd yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus
- yr ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n effeithiol er mwyn adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant
- y cynlluniau yn rhoi sylw effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a rhifedd y plant
- gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen
- yr holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant
- y lleoliad yn hybu bwyta'n iach a chadw'n heini'n llwyddiannus
- yr ethos Cymreig yn gryf yn y lleoliad, ac yn rhan annatod o'r gwaith
- yr ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac wedi creu ethos cartrefol a chymunedol mewn amgylchedd dysgu gofalgar

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd bod:

- safon arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda
- yr arweinydd yn gwneud yn fawr o unrhyw gyngor a chanllawiau er mwyn cynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth
- yr ymarferwyr yn deall a chyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus
- y pwyllgor a'r person cofrestredig yn cyfrannu'n bwrpasol iawn tuag at reolaeth y lleoliad
- yr ymarferwyr, y person cofrestredig a'r pwyllgor i gyd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at wella ansawdd y cylch yn barhaus
- y lleoliad yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ystod fuddiol o bartneriaid sy'n cyfrannu'n fuddiol at safonau a lles y plant
- yr arweinydd yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gweithio'n effeithiol gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd
- y lleoliad yn darparu cyflenwad da o adnoddau buddiol tu fewn a thu allan sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu a chynnal y ddarpariaeth barhaus

A2 Cynllunio'n systematig er mwyn hyrwyddo medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu profiadau dysgu buddiol sydd yn ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus, ac yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n effeithiol er mwyn adeiladu ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Maent yn cynnig gweithgareddau diddorol sy'n ysgogi bron bob plentyn i ddarganfod dros eu hunain, er enghraifft wrth iddynt arbrofi gyda fflachlampau wrth chwarae rôl yn y 'llong ofod'. Mae'r ymarferwyr yn cynnwys syniadau'r plant yn dda yn eu cynlluniau trwy roi cyfleoedd iddynt gynnig syniadau diddorol ar gyfer bron pob thema.

Mae'r arweinydd ynghyd â'r ymarferwyr eraill yn cynllunio'n effeithiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu cynllunio ar gyfer y medrau hyn gan adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod y plant yn elwa o gyfleoedd addas i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), nid yw'r cynlluniau ar gyfer hybu medrau TGCh y plant wedi datblygu mor effeithiol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol, meddwl a chreadigol, gan gynnwys printio gyda dail a chreu glŵp.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain yn yr ardaloedd tu fewn a'r ardal allanol. Mae tasgau ffocws yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol yn ôl eu hoed a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau sylfaenol disgyblion trwy weithgareddau parhaus ar gael yn ddigon cyson.

Mae'r plant yn dysgu trin popeth byw gyda pharch a gofal wrth chwilio am drychfilod yn yr ardd. Maent yn cael cyfleoedd amrywiol i ddysgu dangos parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol, er enghraifft trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Diwali. Maent yn dysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig yn dda, gan gynnwys creu cardiau ar gyfer Dydd Santes Dwynwen.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant. O ganlyniad, maent yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'r rhai sy'n cael eu cyfeirio gan oedolion. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu trwy chwarae, er enghraifft wrth iddynt arbrofi yn y gegin fwd a chwilio am rifau yn y tywod. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith Gymraeg yn dda gan wneud defnydd buddiol iawn o dafodiaith gyfoethog yr ardal. Mae'r holl ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg. Maent yn annog y plant i geisio ymateb yn y Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl mewn gweithgareddau ac arferion dyddiol. Er enghraifft, mae'r amser cylch yn caniatáu'r plant i ddatblygu'u medrau siarad a gwrando trwy ymateb i gwestiynau cyfarwydd ac i ganu hwiangerddi a chaneuon Cymreig.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau'n llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad da a thynnu sylw'r plant O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac i gyfrannu'n effeithiol, er enghraifft wrth ddisgrifio'r tywydd neu rannu cwpanau amser byrbryd.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar gyfer asesu cynnydd y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn canmol plant ar lafar am eu hymdrechion yn gyson ac yn eu holi'n fedrus yn ystod gweithgareddau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hunanhyder y plant ac yn datblygu eu dealltwriaeth a'u hiaith yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion buddiol ar eu datblygiad. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hyn yn briodol i gynllunio am y cam nesaf yn eu haddysg. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant trwy sgyrsiau rheolaidd ac adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer y disgyblion hynaf.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini'n llwyddiannus. Mae'r amser byrbryd yn atgyfnerthu hyn yn dda ac yn rhoi cyfle gwerthfawr i'r plant a'r staff gymdeithasuâ'i gilydd gan feithrin arferion cymdeithasol gwerthfawr. Mae'r plant hefyd yn dysgu am fwydydd iach trwy goginio prydau iachus, er enghraifft paratoi llysiau ar gyfer cawl Dydd Gwyl Dewi. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i atgyfnerthu arferion byw'n iach yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r nyrs deintyddol yn dod i siarad â'r plant am bwysigrwydd glanhau dannedd.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a pharch, yn llwyddiannus trwy weithgareddau ac arferion dyddiol. Er enghraifft, maent yn gwobrwyo plant am rannu a dangos parch at eraill neu ymddwyn yn dda yn gyson. Maent yn manteisio ar gyfleoedd cyson i hyrwyddo hunanbarch a hyder y plant ac yn eu hybu i drafod eu teimladau a chymryd eu tro yn gyson. Mae cyfleoedd buddiol ar gael i bob plentyn ddysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd trwy ailgylchu papur a chardfwrdd.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac asiantaethau allanol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn ôl yr angen.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, ac wedi creu ethos cartrefol ac amgylchedd dysgu gofalgar a goddefgar. Mae'r ethos Cymreig yn gryf yn y lleoliad, ac yn rhan annatod o'r gwaith.

Mae gan y lleoliad gyflenwad addas o adnoddau pwrpasol sydd yn cefnogi egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys gwrthrychau 'go iawn' megis cerrig mân a brigau. Mae'r lleoliad yn cyfarfod yn neuadd yr ysgol, gan osod yr holl ardaloedd yn ddyddiol. Mae'r ardaloedd yn ddeniadol ac wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Fodd bynnag, nid yw pob ardal o'r ddarpariaeth barhaus, megis y tŷ bach twt, ar gael yn gyson. O ganlyniad, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau sylfaenol a'u diddordebau eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi arddangosfeydd lliwgar sydd yn cynnwys gwaith y plant ac yn dathlu'u llwyddiannau'n dda. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân.

Mae'r lleoliad yn rhannu ardal allanol sydd ag adnoddau o safon uchel gyda'r ysgol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae ymwelwyr ac ymweliadau i leoliadau lleol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn addas. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd buddiol i fynd am dro ar hyd y pentref er mwyn datblygu'u hymwybyddiaeth o'u hardal leol. Mae ymwelwyr, gan gynnwys rhieni a swyddog o'r Frigâd Dân, yn rhannu gwybodaeth werthfawr gyda'r plant ac yn cyfoethogi'u profiadau dysgu yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn brofiadol, cydwybodol a threfnus. Mae ganddi weledigaeth gadarn sy'n gosod pwyslais cadarn ar sicrhau lles a chynnydd y plant ac ar drosglwyddo'r iaith Gymraeg yn effeithiol. Mae wedi llwyddo i rannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn ymysg yr holl ymarferwyr. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hun ac o'r ymarferwyr. Maent yn cydweithio'n hapus fel tîm gyda phob un yn deall a chyflawni eu dyletswyddau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu at ethos gweithgar lle mae plant ag ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r arweinydd yn gwneud yn fawr o unrhyw gyngor a chanllawiau er mwyn cynnal a gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r pwyllgor a'r person cofrestredig yn cyfrannu'n werthfawr tuag at reolaeth y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad staff. Bu'r pwyllgor yn gweithredu'n bwrpasol i gryfhau'r ddarpariaeth, er enghraifft drwy newid amser y sesiynau i fod yn fwy cyfleus i rieni a gofalwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd, yr ymarferwyr, y person cofrestredig a'r pwyllgor i gyd yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at wella ansawdd y cylch. Maent yn rhannu'r un bwriad o greu darpariaeth o'r safon gorau i'r plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol y sir ac yn gweithredu'n brydlon ar unrhyw gyngor neu argymhelliad. Mae hyn wedi arwain at welliannau sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd y plant. Enghraifft o hyn yw'r strategaethau i annog y plant i ymateb ar lafar yn y Gymraeg wrth ddewis ble i fynd i chwarae. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd, ac yn defnyddio gwybodaeth o gyrsiau hyfforddiant yn gyson. Mae gan y pwyllgor a'r person cofrestredig wybodaeth gyfredol am waith y cylch. Maent yn derbyn gwybodaeth yn gyson gan yr arweinydd ac yn ymweld yn anffurfiol â'r lleoliad yn rheolaidd. O ganlyniad, maent yn gallu cynnig cefnogaeth briodol yn ôl yr angen.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd i gynnal hunanarfarniad ffurfiol yn flynyddol ac yn gwneud defnydd buddiol o weithdrefnau'r awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfle gwerthfawr i'r rhieni rannu eu sylwadau trwy holiaduron a gwerthusiad ysgrifenedig ar ddiwedd cyfnod y plentyn yn y cylch. Mae'r pwyllgor a'r person cofrestredig yn cyfrannu'n fuddiol i'r broses gan gefnogi'r ymarferwyr yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r hunanarfarniad yn trafod safonau dysgu ac addysgu yn briodol ac yn amlygu cryfderau'r cylch yn gywir. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod y blaenoriaethau ar gyfer meysydd i'w gwella'n llwyddiannus ac mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r cynllun datblygu. Mae gwerthusiadau o gynlluniau blaenorol yn dangos cynnydd parhaol, er enghraifft wrth wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod fuddiol o bartneriaid sy'n cyfrannu'n fuddiol at safonau a lles y plant. Mae perthynas dda iawn rhwng yr ymarferwyr a rhieni'r plant. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi safon y gofal dros eu plant a'u cynnydd yn y lleoliad, yn arbennig gyda'u medrau yn yr iaith Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfle i drafod cynnydd y plant ac unrhyw bryderon yn anffurfiol wrth y drws yn gyson, ac yn rhannu gwybodaeth trwy gylchlythyron rheolaidd. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnwys cynlluniau'r tymor ac am weithgareddau dyddiol. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant.

Mae’r cydweithrediad hwylus gyda’r ysgol yn arbennig o werthfawr i’r lleoliad. Mae’r ysgol yn cynnig cartref i’r cylch yn y neuadd ac yn rhannu’r ardal allanol gan alluogi’r ymarferwyr i ddatblygu profiadau symbylol i’r plant, gan gynnwys y gegin fwd. Yn ogystal, mae’r plant a’u rhieni yn elwa o ddod yn rhan o gymuned yr ysgol cyn iddynt ddechrau ar eu haddysg ffurfiol.

Mae’r bartneriaeth gref gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth, ac yn cefnogi arweinyddiaeth y lleoliad yn effeithiol. Mae gan y lleoliad gysylltiad buddiolâ’r Mudiad Meithrin, er enghraifft trwy fanteisio ar gyfleoedd i gael hyfforddiant.

Mae’r lleoliad yn cyfrannu’n werthfawr i’r gymuned leol. Er enghraifft, mae’r plant yn cymryd rhan yng ngharnifal y pentref ac yn ymweld â chartref i’r henoed i ganu carolau. Mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu. Yn ogystal, mae gweithgareddau codi arian y pwyllgor yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol hwyliog i deuluoedd yr ardal.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol er mwyn gweithio gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o’r ymarferwyr ac o adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod pob ymarferydd yn gweithio’n effeithiol gan wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd.

Mae’r ymarferwyr yn gwneud yn fawr o gyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu eu dealltwriaeth a dysgu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu. Er enghraifft, o ganlyniad i hyfforddiant diweddar, mae’r lleoliad wedi datblygu eu dulliau o asesu’r plant ac wedi cynnig profiadau hwyliog i hybu eu medrau creu marciau. Mae’r ymarferwyr wedi mabwysiadu dull mwy effeithiol o drefnu’r amgylchedd dysgu ar ôl ymweld â chylch cyfagos, ac yn rhannu arfer dda yn briodol gyda lleoliadau eraill gyda chymorth yr athrawes ymgynghorol.

Mae’r arweinydd yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau buddiol tu fewn a thu allan sy’n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae’r rhain yn cynnwys llyfrau o ansawdd da, dillad addas ar gyfer mynd tu allan, a blociau adeiladu o wahanol siâp a maint.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn rheoli gwariant yn effeithiol ac yn cydweithio i geisio sicrhau cyllid digonol i’r lleoliad. Er enghraifft, trwy newid amser y sesiynau, maent wedi denu mwy o blant i’r cylch.

O ystyried safon yr addysgu, yr arweinyddiaeth, a’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu lles a medrau iaith, rhifedd a TGCh y plant, mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sheila Birkhead | Arolygydd Cofnodol |
| Kevin Davies | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |